


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: Sandra Williams

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

21 Mawrth 2017

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Neuadd y Dref, Stryd y Farchnad, Rhuthun NOS LUN, 27 MAWRTH 2017 am 7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams

Clerc y Dref

AGENDA

- 1. CYFLWYNIAD YNGHYLCH CANOLFAN GREFFT RHUTHUN**
Derbyn cyflwyniad gan Jamie Groves, Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch y cais am gyfraniad o £30,000 gan Gyngor Tref Rhuthun i Ganolfan Grefft Rhuthun.
- 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 3. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan budd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 4. ADRODDIAD Y MAER**
- 5. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn a chadarnhau bod cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2017 yn gywir.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 (copi melyn).

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

www.cyngortrefrhuthun.gov.uk / www.ruthintowncouncil.gov.uk

- 9. Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2017 (copi gwyrdd).
- 10. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER**
Derbyn enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer Cyngor Tref Rhuthun ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-18.
- 11. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL GAN GYLCH TI A FI RHUTHUN**
Ystyried gwybodaeth ychwanegol yng nghyswllt cais am gymorth ariannol gwerth £500.00 gan Gylch Ti a Fi Rhuthun.
- 12. YMGYRCH TACLUSO TREF RHUTHUN 2017**
Ystyried argymhelliad y Pwyllgor Amwynderau y dylid cynnal Ymgyrch Tacluso Tref Rhuthun 2017 ddydd Sadwrn, 8 Ebrill 2017, gan gyfarfod ym maes parcio Cae Ddôl am 10 o'r gloch y bore a dychwelyd erbyn hanner dydd.
- 13. DIWRNODAU PARCIO AM DDIM 2017**
Ystyried argymhelliad y Pwyllgor Amwynderau y dylid cynnig y pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio'r dref ar 1 Gorffennaf, 2 Medi a 2, 9 ac 16 Rhagfyr 2017.
- 14. CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**
Ystyried gwahoddiad i Gyfarfod Chwarterol Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ddydd Gwener, 21 Ebrill 2017 yng ngwesty'r Royal Oak, Y Trallwng, ynghyd â chinio am £16 y pen.
- 15. POLISI CADW DOGFENNAU**
Ystyried mabwysiadu'r Polisi Cadw Dogfennau arfaethedig.
- 16. GOHEBIAETH**
Nodi'r eitemau gohebiaeth a ganlyn, ac unrhyw eitemau ychwanegol a dderbyniwyd cyn y cyfarfod:
- i. Ymgyngoriad: Polisi Cludiant Dysgwyr Sir Ddinbych
 - ii. Penodi Is-lywydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
 - iii. Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i Bwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon
 - iv. Penodi Aelodau i Gyngor Partneriaeth y Gymraeg
- 17. DATGANIAD ARIANNOL**
Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2017.
- 18. CYFRIFON I'W TALU**
Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:
- | | | | |
|------|------------------------------|--|-----------|
| 5003 | Cymdeithas Gymuned Llanfwrog | Cymorth ariannol tuag at osod lifft a grisiau yng Nghanolfan Llanfwrog | £5,000.00 |
| 5004 | Menter Iaith Sir Ddinbych | Cymorth ariannol at weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg yn Rhuthun | £500.00 |
| 5005 | Zoll Medical UK Ltd | Peiriant diffibriliwr AED Plus | * £983.88 |
| 5006 | SADS UK | Cwpwrdd diffibriliwr wedi'i wresogi, heb ei gloi | £320.00 |
| 5007 | Llanfwrog CIC | Torri glaswellt – Mawrth 2017 | £171.30 |
| 5008 | The Play Inspection Co. | Adroddiad Arolwg Diogelwch Blynyddol x 2 | £156.00 |
| 5009 | Cyngor Sir Ddinbych | Ad-daliad rhif 6 (o 7) y benthygiad parc sgrialu | £7,880.00 |
| 5010 | SLCC | Cwrs hyfforddiant 4 diwrnod CiLCA, Yr Wyddgrug | * £300.00 |

5011	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol		£252.83
5012	Aerial Electrics Ltd	Cyflenwi a gosod lampau newydd i lifoleuo Eglwys Sant Pedr	*	£242.40
5013	Aerial Electrics Ltd	Tynnu'r hen oleuadau a chyflenwi a gosod goleuadau LED newydd ar y coed yn Sgwâr Sant Pedr	*	£2,743.20
5014	Aerial Electrics Ltd	Goleuadau Nadolig ar y coed Nadolig mewn pum lleoliad	*	£4,003.20
5015	Capel Pendref	Costau trydan ar gyfer y llifoleuadau		£72.74
5016	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£90.00
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn	*	£99.67

(Mae'r eitemau a ddynodir gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £1,410.39)

19. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 24 Ebrill 2017.

RHAN DAU

20. GRŴP PENODI CLERC Y DREF

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2017.

21. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyn manylion am gyflog Clerc y Dref (copi pinc).